Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Terrig
# Ffordd Y Llan
# Treuddyn
# Yr Wyddgrug
# Sir y Fflint
# CH7 4LN

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/08/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Terrig sy'n cwrdd mewn ystafell yn Ysgol Gynradd Terrig, yn awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae'r lleoliad yn cynnig addysg a gofal i blant o ddwy i bedair oed mewn sesiynau o ddwy awr a hanner am bum bore bob wythnos. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 16 o blant fesul sesiwn. Mae 12 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, gyda phedwar ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi ei ariannu gan yr awdurdod lleol.

Saesneg yw prif iaith y cartref llawer o blant y lleoliad.

Mae dau aelod o staff cymwysedig yn gweithio yn y lleoliad, gyda'r arweinydd yn ei swydd ers mis Mai 2001.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ebrill 2017 a chan Estyn ym mis Ebrill 2011.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymarferwyr yn cynnig ystod o brofiadau buddiol i'r plant ddysgu trwy chwarae sy'n seiliedig ar ddiddordebau plant
- y lleoliad yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu medrau llythrennedd
- profiadau gwerthfawr i'r plant ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymreig
- ymarferwyr yn llwyddo i greu amgylchedd dysgu ysgogol a chartrefol sy'n annog ymglymiad a chyfranogiad plant yn llwyddiannus
- perthynas waith effeithiol rhwng y plant a'r ymarferwyr
- y lleoliad yn cefnogi iechyd a lles plant yn effeithiol

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan arweinwyr nodau ac amcanion clir
- yr arweinydd a'r staff profiadol yn cyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus
- yr arweinydd a'r pwyllgor yn cydweithio'n effeithiol er mwyn gwella ansawdd y lleoliad
- y cynllun gwella yn cysylltu'n briodol â'r adroddiad hunanarfarnu
- y lleoliad yn manteisio ar ystod o bartneriaethau buddiol er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth yn llwyddiannus.
- cyswllt agos gyda'r ysgol leol sydd ar yr un safle yn cyfoethogi'r ddarpariaeth a phrofiadau dysgu'r plant yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Cryfhau gweithdrefnau cynllunio er mwyn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn systematig

A2 Cynllunio'n fwriadus i adeiladu ar wybodaeth a medrau plant trwy weithgareddau cyfoethogi effeithiol

A3 Datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu effeithiol er mwyn adnabod yn well y cryfderau a'r meysydd sydd i'w datblygu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Barn |
|---|---|

**Safonau: Barn**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, na’r iaith Gymraeg. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Barn**

Nid oes unrhyw adroddiad ar les plant na sut y maent yn cyfranogi mewn dysgu a’i fwynhau. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae’r ymarferwyr yn cynnig ystod o brofiadau dysgu buddiol sy’n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant yn briodol. Maent yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau dysgu sy’n seiliedig ar ddiddordebau’r plant ynghyd â’u syniadau eu hunain. Mae’r staff yn cyfrannu’n fuddiol i gyd-gynllunio cwricwlwm addas sydd, at ei gilydd, yn cyfateb i egwyddorion a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae’r cynllunio’n sicrhau cyfleoedd addas i blant ymchwilio a darganfod dros eu hunain ac i feithrin medrau dysgu annibynnol. Mae’r cwricwlwm yn cynnwys defnydd priodol o ardaloedd pwrpasol tu fewn, yn ogystal â chynllunio ar gyfer gweithgareddau yn yr ardal allanol. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob tro’n cynllunio’n fwriadus i adeiladu ar wybodaeth a medrau plant trwy weithgareddau cyfoethogi effeithiol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn addas. Maent yn dechrau defnyddio’u harsylwadau o ddatblygiad y plant i addasu’r gwaith yn briodol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynllunio tasgau rhifedd i gyfateb i fedrau cyfri’r plant. Maent yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd y plant yn gadarn trwy ystod o weithgareddau ac ymarferion rheolaidd, er enghraifft trwy fodelu patrymau iaith cyffredin yn ystod amser cofrestru ac amser cylch a chanu rhigymau cyfarwydd yn ddyddiol. Mae’r plant yn cael cyfleoedd addas i ddatblygu’u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) trwy ystod briodol o brofiadau dysgu diddorol, gan gynnwys defnyddio apiau ar lechen er mwyn datblygu eu medrau llythrennedd yn ogystal â’u medrau TGCh. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio bob tro’n adeiladu’n ddigon systematig ar ddatblygu medrau rhifedd, llythrennedd a TGCh y plant dros eu cyfnod yn y lleoliad.

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymreig, er enghraifft drwy ddathlu Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Maent yn defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr yn effeithiol i gyfoethogi profiadau dysgu. Enghraifft dda yw’r defnydd o aelodau’r Mudiad Meithrin a’r Fenter Iaith leol sy’n ymweld â’r ysgol i gefnogi ac i hybu datblygiad iaith y plant. Mae’r plant hefyd yn ymweld â busnesau a sefydliadau lleol sy’n cefnogi eu dealltwriaeth o fywyd pob dydd o fewn eu cymuned yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol, sy'n annog plant i ddangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o gefndir diwylliannol gwahanol. Enghraifft dda o hyn yw gweithgareddau a phrofiadau dysgu yn ymwneud â dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd mewn cydweithrediad ag Ysgol Terrig.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a datblygiad plant. Maent yn cydweithio'n effeithiol fel tîm i sefydlu amgylchedd dysgu ysgogol a chartrefol sy'n annog ymglymiad a chyfranogiad plant yn llwyddiannus. Mae'r berthynas waith effeithiol sy'n bodoli rhwng y plant a'r ymarferwyr yn cyfrannu'n dda at greu awyrgylch o gydweithio a pharch tuag at ei gilydd. Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn gadarn ac yn annog y plant i ymarfer ac ymestyn eu medrau iaith drwy ganu a sgwrsio â nhw yn gyson. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn defnyddio holi pwrpasol a chwestiynau agored i ddatblygu medrau iaith a meddwl y plant yn ystod eu gweithgareddau. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion yn rheolaidd ac yn rheoli ymddygiad mewn ffordd synhwyrol a sensitif.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant ddysgu trwy chwarae, er enghraifft wrth iddynt chwarae rôl yn y tŷ bach twt. Yn gyffredinol, maent yn sicrhau cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau a ddewisir gan blentyn a'r rheini a arweinir gan oedolion. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n manteisio'n ddigonol ar gynllunio cyfleoedd i atgyfnerthu ac ymestyn medrau a dealltwriaeth y plant trwy weithgareddau cyfoethogi effeithiol.

Mae gan y lleoliad drefniadau addas ar gyfer asesu cynnydd y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio proffil Cyfnod Sylfaen yn briodol i asesu man cychwyn y plant. Maent yn cofnodi arsylwadau o gynnydd y plant yn drefnus ac yn gynhwysfawr er mwyn olrhain eu cynnydd a chynnig adborth buddiol i rieni. Yn ddiweddar, mae'r ymarferwyr yn dechrau ystyried eu harsylwadau ar gynnydd y plant er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n gwneud defnydd effeithiol o'r holl wybodaeth sydd ganddynt er mwyn cynllunio'n fwriadus a systematig ar gyfer anghenion unigolion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cefnogi iechyd a lles plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo pwysigrwydd bwyta'n iach yn effeithiol trwy weithgareddau fel amser byrbryd. Trwy annog y plant i helpu gweini'r ddiod a ffrwythau, maent yn datblygu eu hunanhyder a medrau cymdeithasol yn llwyddiannus. Mae hyn hefyd yn cyfrannu'n fuddiol at ddatblygu iaith y plant wrth ddysgu geirfa newydd a thrwy sgwrsio â'i gilydd ac oedolion yn anffurfiol. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y plant, er enghraifft trwy annog y plant i drafod teimladau yn ystod cofrestru a thrwy ddangos parch trwy ystod o weithgareddau ac arferion dyddiol.

Sicrheir bod y plant yn cael cyfleoedd cyson i gael ymarfer corfforol y tu fewn a thu allan. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd da o holl adnoddau allanol y safle yn ogystal â'r neuadd. Mae hyn yn hyrwyddo iechyd a ffitrwydd y plant yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad hefyd yn cydweithio'n dda ag Ysgol Terrig i ddarparu cyfleoedd priodol i'r plant ailgylchu papur, plastig a chardfwrdd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn addas.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu trosglwyddo yn ddiogel i ofal eu rhieni neu ofalwr.

Mae prosesau cadarn gan y lleoliad i ymateb i anghenion unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan Gylch Meithrin Terrig amgylchedd dysgu ysgogol, deniadol a chroesawgar ar gyfer y plant. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda i sicrhau ethos cynhwysol lle mae pob plentyn yn cael ei barchu ac yn cael yr un chwarae teg. Mae'r cydweithrediad cadarn sydd rhwng y lleoliad ac Ysgol Terrig yn sicrhau defnydd priodol o'r holl gyfleusterau sydd ar gael iddynt, gan gynnwys yr ystafell ddysgu, ardal wlyb y Cyfnod Sylfaen, neuadd yr ysgol a'r holl adnoddau allanol. Yn gyffredinol, mae hyn yn cefnogi'r dysgu a'r addysgu'n effeithiol, er nid yw ymarferwyr bob tro'n cynllunio'n ddigon bwriadus i wneud y gorau o'r holl adnoddau.

Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei gadw'n lân. Mae arddangosfeydd lliwgar a deniadol yn dathlu gwaith a llwyddiannau'r plant yn effeithiol. Trwy blannu a thyfu blodau yn yr ardal allanol, mae'r plant yn cyfrannu'n llwyddiannus at harddu'r amgylchedd allanol yn ogystal â dysgu am sut i ofalu am blanhigion. Mae cyflenwad da o adnoddau ac ardaloedd dysgu pwrpasol yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i blant ymchwilio a dysgu drostynt eu hunain. Mae gan y lleoliad ddigon o staff sy'n meddu ar wybodaeth briodol i addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr nodau ac amcanion clir sy'n seiliedig ar sicrhau hapusrwydd a'r gofal gorau posibl i'r plant mewn awyrgylch hapus a chartrefol. Mae'r arweinydd a'r holl staff yn brofiadol ac yn cyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau sylfaen gadarn i blant ddatblygu eu medrau iaith mewn awyrgylch ysgogol. Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel o'i hun ac o'r ymarferwyr sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn manteisio ar hyfforddiant a chefnogaeth addas. Mae'r holl ymarferwyr yn derbyn adborth defnyddiol trwy weithdrefnau effeithiol ar gyfer gwerthuso'u gwaith yn flynyddol. O ganlyniad, maent yn gweithredu ar unrhyw dargedau o'r broses hon ynghyd ag arweiniad a chyngor gan asiantaethau allanol. Mae hyn wedi sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth yn ddiweddar, er enghraifft wrth weithredu strategaethau addas i ddatblygu medrau iaith lafar y plant.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor yn cydweithio'n effeithiol er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau. Maent yn sicrhau bod polisïau'n gyfredol yn ogystal â gwneud penderfyniadau pwysig o ran y cyllid a'r ddarpariaeth. Mae'r pwyllgor yn manteisio ar arbenigeddau aelodau. Er enghraifft, mae pennaeth yr ysgol gynradd yn arsylwi sesiynau ac mae'r ysgrifenyddes yn gweithredu fel trysorydd y lleoliad. Maent yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyfrannu'n uniongyrchol i sicrhau bod y lleoliad yn gweithredu ar gyngor asiantaethau allanol er mwyn gwella'r ddarpariaeth a chodi

safonau.  Mae aelodau'r pwyllgor hefyd yn cymryd rhan weithredol ym mhroses rheoli perfformiad y staff ac yn ymweld â'r lleoliad i drafod materion yn ymwneud â'r ddarpariaeth yn rheolaidd.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw gwerthfawr i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.  Maent yn ffocysu'n effeithiol ar hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn ogystal â hybu lles a ffitrwydd yn llwyddiannus.

**Gwella ansawdd:  Digonol**

Mae gan y lleoliad drefniadau cyffredinol addas ar gyfer adnabod llawer o'i gryfderau ac agweddau sydd angen eu gwella.  Mae ymarferwyr yn casglu barn y rhieni'n briodol trwy holiaduron ac yn defnyddio adroddiadau monitro partneriaid yn addas fel sail i'r trefniadau hyn.

Yn ddiweddar, mae cyfarfodydd yr ymarferwyr a'r pwyllgor yn canolbwyntio'n briodol ar faterion yn ymwneud â'r ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ac yn gweithredu ar unrhyw bwyntiau datblygu'n addas.  Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae'r ymarferwyr wedi sicrhau gwelliant yn eu hymarfer trwy gofnodi eu harsylwadau am blant yn fwy effeithiol.  Mae'r pwyllgor yn derbyn gwybodaeth gyfredol o waith y lleoliad oddi wrth yr arweinydd ac wrth ymweld â'r lleoliad.  Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cynnig cefnogaeth briodol.  Fodd bynnag, nid yw'r arweinydd na'r ymarferwyr yn monitro effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau'r plant yn ddigon trylwyr.  O ganlyniad, nid yw adroddiad hunanarfarnu'r lleoliad yn ddigon arfarnol nac yn amlygu'r cryfderau a'r meysydd sydd angen gwelliant yn ddigon manwl.

Mae'r cynllun gwella yn cysylltu'n briodol â'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hunanarfarnu.  Yn gyffredinol, mae'n cynnwys yn addas yr hyn sydd angen ei wella ynghyd â chamau gweithredu perthnasol, cyfrifoldebau a therfynau amser priodol.  Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf llwyddiant na'r arfarniadau o'r cynlluniau bob tro'n ddigon manwl nac yn canolbwyntio ar ddeilliannau'r plant.  Nid yw'r lleoliad wedi mynd i'r afael yn llawn â phob un o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r lleoliad yn manteisio ar ystod o bartneriaethau buddiol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth yn llwyddiannus.  Mae'r cyswllt agos ag Ysgol Terrig yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn effeithiol.  Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o'r ardaloedd allanol, ardal wlyb y dosbarth meithrin a neuadd yr ysgol er mwyn hyrwyddo lles a ffitrwydd y plant yn effeithiol a chefnogi meysydd dysgu eraill.  Enghraifft dda yw'r cyfleoedd buddiol mae'r plant yn eu cael wrth iddynt ymuno â'r dosbarth meithrin yn wythnosol i gymryd rhan yn y sesiynau canu ac amser cylch.  Maent hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio ar themâu a diwrnodau arbennig, er enghraifft i ddathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd a chymryd rhan mewn cyngherddau Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi yr ysgol.  Mae'r trefniadau trosglwyddo cadarn hyn yn sicrhau bod y plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin.  Maent yn gweithredu'n addas ar eu cyngor ac arweiniad sy'n cyfrannu at wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.  Maent hefyd yn cydweithio'n llwyddiannus â swyddogion y fenter iaith leol sy'n ymweld â'r lleoliad i gynnal digwyddiadau arbennig i hybu Cymreictod a medrau iaith y plant.

Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi ymroddiad y staff a'r berthynas waith sy'n bodoli rhyngddyn nhw a'r plant. Mae'r polisi drws agored yn sicrhau bod rhieni yn cael cyfleoedd da i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda'r ymarferwyr yn gynnar iawn. Trwy lenwi holiaduron diweddar, mae rhieni'n dechrau cynnig eu sylwadau a'u barnau ar y lleoliad yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn hysbysu rhieni am waith a digwyddiadau'r lleoliad yn rheolaidd er mwyn iddynt gefnogi eu plant yn y cartref.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn ymweld â'r swyddfa bost i ddysgu am waith pobl sy'n eu helpu. Yn ogystal, mae gweithgareddau codi arian y pwyllgor a'r rhieni yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol hwyliog i deuluoedd yr ardal.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifainc. Mae ymarferwyr yn manteisio'n dda ar gyfleoedd buddiol i ymweld ag arfer dda mewn lleoliadau eraill a mynychu hyfforddiant priodol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, er enghraifft wrth ddatblygu medrau iaith y plant. Mae gan y lleoliad weithdrefnau ffurfiol i reoli perfformiad y staff ac i gefnogi eu datblygiad. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda phennaeth yr ysgol gynradd sy'n arsylwi sesiynau fel rhan o'r broses.

Mae'r pwyllgor yn rheoli adnoddau yn effeithiol ac yn sicrhau cyflenwad da o gyfarpar dysgu sy'n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen ac yn bodloni anghenion y plant yn dda. Mae gan swyddogion y pwyllgor ddealltwriaeth gadarn o'r sefyllfa ariannol ac maent yn dechrau rheoli gwariant yn ofalus. Mae'r bartneriaeth buddiol gydag Ysgol Terrig yn sicrhau bod y lleoliad yn manteisio'n llawn ar ei hadnoddau. Mae ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn sicrhau bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |